Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 16 Ionawr 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(106)v4

**1. Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**Cwestiwn Brys**

**Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol Welsh Country Foods yn Gaerwen, a'r 350 o swyddi yno.

**3. Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor (5 munud)**

NDM5140 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Bethan Jenkins (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn lle Jocelyn Davies (Plaid Cymru).

**4. Dadl ar adroddiad byr y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar Ddiogelu'r Arfordir yng Nghymru (60 munud)**

NDM5136 Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei ymchwiliad i ddiogelu'r arfordir yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Hydref 2012.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Ionawr 2013.

**Dogfennau ategol:**
Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Ymateb Llywodraeth Cymru

**5. Dadl ar Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Fabwysiadu (60 munud)**

**NDM5133 Christine Chapman (Cwm Cynon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar yr ymchwiliad i Fabwysiadu, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Tachwedd 2012.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 9 Ionawr 2013.

**Dogfennau ategol:**
Adroddiad Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Ymateb Llywodraeth Cymru

**6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

**NDM5134 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi’r llifogydd difrifol a effeithiodd ar Gymru gyfan yn 2012 a’r distryw a achoswyd mewn cymunedau ledled Cymru.

2. Yn cydnabod gwaith ardderchog y gwasanaethau brys a chryfder yr ysbryd cymunedol wrth fynd i’r afael ag effeithiau llifogydd difrifol.

3. Yn cydnabod pwysigrwydd dull gweithredu ar draws portffolios i reoli llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod datblygu ar orlifdiroedd yn cael ei adolygu fel elfen ganolog o'r Bil Cynllunio.

5. Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i roi sicrwydd y bydd y corff newydd, Cyfoeth Naturiol Cymru, yn cefnogi ac yn rheoli'n effeithiol bob ymdrech i fynd i'r afael â llifogydd yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn**:

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1:

'ac yn mynegi gofid y bydd graddfa ac amlder digwyddiadau o'r fath yn siwr o gynyddu wrth i'n hinsawdd newid ac wrth i lefelau'r môr godi'

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 3:

'a manteision gwybodaeth leol wrth lunio arferion rheoli tir effeithiol, i leihau nifer yr achosion o lifogydd'

**Gwelliant 3 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 4 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o sefydlu Fforwm Llifogydd ar gyfer Cymru.

**Gwelliant 4 – Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ym mhwynt 4, dileu popeth ar ôl 'yn cael ei adolygu' a rhoi yn ei le 'fel rhan o'i pholisi cynllunio'

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 4:

'a bod Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 yn cael ei ddiwygio ar frys er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â pholisi a deddfwriaeth gyfredol'

Mae Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd ar gael drwy'r linc a ganlyn:

http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan15/;jsessionid=64297ABF251B0956D3E7CB8480E448F2?skip=1&lang=cy

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i bwyso ar Lywodraeth y DU i drafod telerau Datganiad Egwyddorion diwygiedig ar lifogydd gyda chwmnïau yswiriant, gan fod y Datganiad Egwyddorion presennol yn dod i ben ar 30 Mehefin 2013.

Gellir gweld y Datganiad Egwyddorion drwy ddilyn y linc a ganlyn: http://archive.defra.gov.uk/environment/flooding/documents/interim2/sop-insurance-agreement-080709.pdf

**Gwelliant 7 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth benderfyniad Llywodraeth Cymru i ddiystyru cynnal ymchwiliad cyhoeddus i'r llifogydd diweddar yn Sir Ddinbych.

**Gwelliant 8 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â'r ymchwiliad annibynnol sy'n cael ei

gomisiynu gan Gyngor Sir Ddinbych i'r llifogydd diweddar a chyflwyno tystiolaeth iddo.

**Cyfnod Pleidleisio**

**7. Dadl Fer (30 munud)**

NDM5135 Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):

Pwysigrwydd cynnal gofal newyddenedigol lefel 3 yng Ngogledd Cymru

Dadl yn tynnu sylw at y bygythiad i wasanaethau gofal newyddenedigol lefel 3 i rieni yng Ngogledd Cymru, a'r effaith bosibl ar deuluoedd a phlant yng Ngogledd Cymru.

**8. Dadl Fer – gohiriwyd o 5 Rhagfyr (30 munud)**

NDM5113 Ken Skates (De Clwyd):

Y Dirwasgiad Maethol – Effaith cynnydd mewn prisiau bwyd a gostyngiad mewn cyllidebau ar iechyd maethol Cymru

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 22 Ionawr 2013

Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 3 Ionawr 2013 i'w hateb ar 16 Ionawr 2013

R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Gofyn i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

1. William Graham (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae datblygiadau mewn technoleg Addasu Genetig yn cael eu hasesu yng Nghymru. OAQ(4)0209(ESD)

2. Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau polisi ynni Llywodraeth Cymru ar gyfer y Canolbarth. OAQ(4)0201(ESD)

3. Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am safonau ansawdd aer mewn ardaloedd canol dinas yng Nghymru. OAQ(4)0199(ESD)

4. Christine Chapman (Cwm Cynon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hybu lles anifeiliaid. OAQ(4)0205(ESD)

5. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): A wnaiff y Gweinidog gadarnhau safbwynt Llywodraeth Cymru o ran datganoli polisi ynni. OAQ(4)0206(ESD)

6. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl yr iaith Gymraeg yn y broses gynllunio. OAQ(4)0204(ESD)W

7. Gwyn Price (Islwyn): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau amgylcheddol yn Islwyn. OAQ(4)0200(ESD)

**8. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu'r system gynllunio newydd ar gyfer Cymru. OAQ(4)0202(ESD) **GOHIRIWYD**

**9. Mick Antoniw (Pontypridd)**: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Hafren Power ynghylch effeithiau amgylcheddol posibl y Morglawdd Hafren arfaethedig. OAQ(4)0210(ESD)

**10. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i sicrhau y bydd ymgeiswyr cynllunio yn cael ymateb i ymholiadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru cyn pen cyfnod penodol. OAQ(4)0211(ESD)

**11. Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gostau cludo ynni i Gymru i'r defnyddiwr. OAQ(4)0203(ESD)

**12. Nick Ramsay (Mynwy)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau cyllidebol ar gyfer y 12 mis nesaf. OAQ(4)0198(ESD)

**13. Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwaith ymchwil ar y cyd sy'n cael ei gomisiynu i astudio effaith rhyddhau llusernau awyr. OAQ(4)0212(ESD)

**14. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**: Pa fath o ymgynghoriad y mae'r Gweinidog wedi'i gael gyda chyd-Weinidogion yn y Cabinet am ddefnyddio'r cysyniad Dinas-ranbarth mewn perthynas â'r broses gynllunio. OAQ(4)0207(ESD)

**15. Eluned Parrott (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer ailgylchu gwastraff cartrefi yng Nghymru. OAQ(4)0208(ESD)

**Gofyn i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth**

1. **Janet Finch-Saunders (Aberconwy)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â digartrefedd dros y chwe mis nesaf. OAQ(4)0199(HRH)

2. **Christine Chapman (Cwm Cynon)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu cyfranogiad mewn chwaraeon yng Nghymru. OAQ(4)0207(HRH)

3. **Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**: Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu hybu nifer y bobl sy'n defnyddio'r Cynllun Gwarant Morgais mewn ardaloedd gwledig. OAQ(4)0210(HRH)

4. **Peter Black (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu prynwyr tro cyntaf i brynu tŷ. OAQ(4)0205(HRH)

5. **Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y bobl ifanc o dan 16 oed yng Nghymru sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon. OAQ(4)0206(HRH)

6. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu Cynllun Grant Refeniw Tai Fforddiadwy Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0200(HRH) **GOHIRIWYD**

7. **Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithdrefnau newid defnydd Cadw ar gyfer Adeiladau Rhestredig. OAQ(4)0208(HRH)

8. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau portffolio ar gyfer 2013. OAQ(4)0197(HRH)

9. **Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â digartrefedd. OAQ(4)0202(HRH)

**10. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei flaenoriaethau ar gyfer 2013. OAQ(4)0196(HRH) **GOHIRIWYD**

**11. Alun Ffred Jones (Arfon)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ffigurau diweddaraf ynglŷn â chyfranogiad pobl mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol. OAQ(4)0211(HRH)**W**

**12. Ken Skates (De Clwyd)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y Gogledd yn ystod y 12 mis nesaf. OAQ(4)0198(HRH)

**13. Russell George (Sir Drefaldwyn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau adfywio Llywodraeth Cymru ar gyfer y Canolbarth. OAQ(4)0204(HRH)

**14. David Rees (Aberafan)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn ymateb i effaith newid budd-daliadau tai. OAQ(4)0209(HRH)

**15. Nick Ramsay (Mynwy)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn y mae'n ei wneud i warchod adeiladau crefyddol yng Nghymru. OAQ(4)0201(HRH)